# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 13/10/10

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Huw Edwards, (Cadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Pat Larsen a Selwyn Griffiths

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Y Parch. Robert Townsend (Yr Eglwys Yng Nghymru Esgobaeth Bangor).

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC)

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Mrs Eleri Parry (Arweinydd Tîm Pwyllgorau)

**Ymddiheuriadau:** Mrs. Ruth Davies, (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Gwyn Hefin Jones (Eglwys Bresbyteraidd Cymru), Mr Wyn Myles Meredith, (Eglwys Fethodistaidd), Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig), Ms Eirian Bradley Roberts (Yr Eglwys Gatholig) a Mrs Leusa Jones (Athrawes Ymgynghorol Rhan Amser CYNNAL)

**Dymuniadau Gorau:** Anfonwyd dymuniadau gorau at Mrs Leusa Jones a'r teulu oedd yn absennol o'i gwaith fel Athrawes Ymgynghorol oherwydd bod ei gwr wedi dioddef damwain ddifrifol, a dymunwyd gwellhad buan iddo.

**Gwellhad Buan**: Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Glynda O'Brien, Swyddog Pwyllgor oedd yn absennol o'r cyfarfod oherwydd salwch, a diolchwyd i Mrs Eleri Parry, Arweinydd Tîm Pwyllgorau am lenwi'r bwlch yn ei habsenoldeb.

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Y Parch Robert Townsend

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATER BRYS

Nid oedd yr eitemau yn ymwneud â "Newidiadau i'r Gwasanaeth Ymgynghorol" a "Gŵyl Dathlu Addysg Grefyddol" wedi eu cynnwys ar raglen y pwyllgor, ond cytunodd y cadeirydd i'w cynnwys o dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd bod y materion wedi dod i'w sylw ar ôl dosbarthu'r rhaglen, a'i fod yn awyddus i dynnu sylw'r aelodau iddynt.

## 4. NEWIDIADAU I'R GWASANAETH YMGYNGHOROL

Cyflwynwyd adroddiad llafar yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar newidiadau i'r Gwasanaeth Ymgynghorol.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau:-

(a) y bydd yn parhau yn ei swydd fel Ymgynghorydd Dyniaethau, ond bydd yn cefnogi prosiect meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn ogystal yn y dyfodol, a bydd Mr Derec Evans yn cefnogi'r gwaith yn y sector gynradd. Nododd ei bod yn falch o gadarnhau y bydd hefyd yn parhau i gefnogi gwaith CYSAG.

(b) bod y gwasanaeth ymgynghorol wedi bod yn trosglwyddo deunydd o safle we CYNNAL i safle MOODLE. Eglurodd bod safle MOODLE ar gael iddynt yn rhad ac am ddim, a'i fod yn galluogi'r gwasanaeth i rannu adnoddau gydag ysgolion cynradd ac uwchradd. Rhoddodd enghreifftiau ar PowerPoint o'r deunydd oedd ar gael ar gyfer Addysg Grefyddol.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn y wybodaeth gyda diolch.**

## 5. GŴYL DATHLU ADDYSG GREFYDDOL

Cyflwynwyd adroddiad llafar yr Ymgynghorydd Dyniaethau ar Ŵyl Dathlu Addysg Grefyddol.

Adroddwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau y cynhelir Gŵyl Dathlu Addysg Grefyddol ym mis Mawrth 2011, a bod CYSAGau Cymru wedi sefydlu cystadleuaeth ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, er mwyn annog a hyrwyddo'r dathlu.

Dosbarthwyd taflen a gyhoeddwyd gan Gyngor Addysg Grefyddol yn cynnwys cyfres o syniadau am y ffyrdd y gall CYSAGau gyfrannu at y dathliad.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y swyddog bod gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i'r ysgolion ynglŷn â'r dathliad.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn y wybodaeth gyda diolch.**

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Mehefin fel rhai cywir.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG GWYNEDD 2009-10

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG Gwynedd am y flwyddyn academaidd 2009-10, er cymeradwyaeth yr aelodau, cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Adroddwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau, bod yr adroddiad yn grynhoad o drafodaethau CYSAG yn ystod y flwyddyn flaenorol o Fedi 2009 hyd Awst 2010, a'i

fod gerbron yr aelodau , er mwyn rhoi cyfle iddynt fynegi barn ar yr adroddiad drafft cyn cyflwyno adroddiad terfynol i Adran Addysg y Cynulliad.

Eglurwyd mai swyddogaeth CYSAG oedd cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, a'r Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad gan gyfeirio ar y dulliau a ddefnyddir i roi sylw cyson i fonitro safonau Addysg Grefyddol, trwy adolygu adroddiadau arolygiadau ysgolion (disgwylir i Adroddiad Blynyddol CYSAG fod ychydig yn wahanol yn y dyfodol yn dilyn newid fframwaith arolygu ESTYN ym mis Medi 2010); derbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion ynghyd â monitro canlyniadau arholiadau.

Crynhowyd gwaith y gwasanaeth ymgynghorol ym maes Addysg Grefyddol ac amlinellwyd y cyrsiau a gynigiwyd o dan raglen hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd yr Awdurdod. Noda'r adroddiad gysylltiad gyda APADGOS a chyfeirir at swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd.

(a) Cyfeiriodd y Parchedig Robert Townsend at yr ymateb cadarnhaol a dderbyniwyd oddi wrth ysgolion uwchradd y sir mewn ymateb i'r ymholiad ynglŷn â'r defnydd a wneir o arweinwyr crefyddol yn yr ysgolion, a chytunwyd y dylid cynnwys y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol.

(b) Mewn ymateb i ymholiad cadarnhawyd gan y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG bod ymdrechion yn parhau i geisio cynrychiolaeth o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr ar y pwyllgor.

Cyfeiriwyd at fân ddiwygiadau i'r adroddiad ac addawodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau y byddai'n gwirio'r ddogfen yn ofalus cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol.

Diolchwyd i'r Ymgynghorydd Dyniaethau am baratoi'r Adroddiad Blynyddol Drafft.

**PENDERFYNWYD derbyn gyda diolch Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG ar gyfer 2009-10, a gofyn i'r Ymgynghorydd Dyniaethau gynnwys gwybodaeth yn yr Adroddiad ynglŷn â'r ymholiad ynglŷn â'r defnydd a wneir o arweinwyr crefyddol yn yr ysgolion, ynghyd â gwneud unrhyw gywiriadau a newidiadau golygyddol angenrheidiol cyn cyhoeddi'r adroddiad terfynol**

## 8 CANLYNIADAU ADDYSG GREFYDDOL 2010

Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniadau Addysg Grefyddol 2010.

Adroddwyd gan yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod y dull o adrodd yn ôl ar ganlyniadau wedi newid. Eglurodd bod Asesiadau Athrawon: Addysg Grefyddol CA3, yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth yn unig, ac nad oedd yn bosibl dod i unrhyw farn ynglŷn â'r canlyniadau, am nad oedd undod ynglŷn â'r ffordd yr oedd athrawon yn dod i farn ynglŷn â'r canlyniadau. Roedd dwy o ysgolion Gwynedd wedi bod yn rhan o gynllun peilot ac wedi cyflwyno portffolio o waith disgyblion ar gyfer achrediad allanol. Pwysleisiodd ei bod yn flwyddyn o arbrofi, a bod angen i APADGOS roi arweiniad pellach i athrawon ynglŷn â'u disgwyliadau, ac i adrannau

uwchradd gael mwy o amser i ymgyfarwyddo â'r drefn.  Eglurodd bod tair blynedd tan fod rhaid i bob ysgol gyflwyno'r portffolio i sylw safonwr allanol, a'i bod yn cynghori athrawon i barhau i arbrofi a phwyllo rhag dod i benderfyniad sylweddol o ran y cynllun gwaith a thasgau.

Gan gyfeirio at Ganlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn), eglurodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod y ffordd o ddarparu addysg yn y sector uwchradd yn mynd trwy broses o newid. Eglurodd bod disgyblion uwchradd bellach yn cael cyfleoedd i ddilyn amrediad o gyrsiau, rhai yn gyrsiau TGAU traddodiadol, eraill yn gyrsiau BTEC galwedigaethol. Hefyd roedd ysgolion yn ceisio bod yn fwy hyblyg, a chaniatáu i ddisgyblion gael mwy o ddewis ynglŷn â pha bryd fyddant yn sefyll arholiadau. Gan hynny eglurodd bod y drefn o adrodd ar ganlyniadau wedi newid, a bod penawdau newydd yn adlewyrchu'r newidiadau.

Ychwanegodd bod rhai o'r cyrsiau Addysg Grefyddol gyfwerth a hanner TGAU tra bo eraill gyfwerth â dau TGAU, a bod hyn yn ei gwneud yn anos cymharu perfformiad Addysg Grefyddol gyda phynciau eraill. Fodd bynnag, eglurodd bod canlyniadau'r cwrs llawn yn dda iawn, a bod perfformiad disgyblion ychydig yn well mewn Addysg Grefyddol na phynciau eraill. Roedd y canlyniadau i'w canmol, ac yn dangos poblogrwydd y cwrs

Mewn ymateb i siom aelod nad oedd y disgyblion yn cael eu trwytho mwyach yn y ffydd Gristnogol, adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau bod y gyfundrefn addysg wedi datgysylltu oddi wrth y syniad o gyflwyno crefydd benodol. Fodd bynnag pwysleisiodd bod Addysg Grefyddol yn un o bynciau mwyaf poblogaidd CBAC, gyda chanran uchel yn dewis dilyn cwrs byr mewn Astudiaethau Crefyddol sy'n dangos diddordeb pobl ifanc yn y maes.

Yn sgil y faith bod cynifer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda yn y cwrs byr Addysg Grefyddol, awgrymodd aelod y dylid annog mwy o ysgolion i gynnig y pwnc ac i fwy o ddisgyblion ddilyn y cwrs. Mewn ymateb eglurodd y swyddogion bod disgwyl i ysgolion gynnig amrediad eang iawn o bynciau erbyn hyn, a'i bod yn anos codi'r niferoedd. Ychwanegwyd y bydd angen i ysgolion a cholegau gydweithio yn y dyfodol er mwyn rhannu adnoddau wrth gynnig amrediad eang o bynciau.

Eglurodd y swyddog nad oedd y wybodaeth ynglŷn ag arholiadau uwch cyfannol a safon uwch ar gael ar adeg dosbarthu'r rhaglen ac y bwriedir cyflwyno'r wybodaeth i'r cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9 AROLYGIADAU YSGOLION

Cyflwynwyd

(i) gwybodaeth ar gynnwys adroddiadau arolygiadau ysgolion dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion.

Tywysodd yr Aelodau drwy'r arolygiadau ar yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Gynradd Rhosgadfan

- Ysgol Dinas Mawddwy
- Ysgol Bodfeurig
- Ysgol Penybryn, Tywyn
- Ysgol Garndolbenmaen
- Ysgol Glan y Môr

Adroddwyd mai'r nod oedd i ysgolion gyrraedd Gradd 1 neu 2 yn yr arolygiadau. Nodwyd bod pump o'r ysgolion wedi eu harolygu mewn Addysg Grefyddol, a bod y mwyafrif llethol ohonynt wedi cael naill ai gradd 1 neu 2 yn CA1 a 2 yn CA2 a bod lle i ymfalchïo bod y safonau'n gadarn gyda nodweddion da a dim diffygion pwysig.

Nodwyd bod un ysgol wedi derbyn gradd 3 yn y ddau gyfnod, a diau fod y pennaeth newydd a'r ysgol yn falch bod pwyntiau trafod penodol iawn wedi eu nodi ar gyfer yr ysgol yma, gan ei fod yn llywio rhaglen waith yr ysgol yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â diffyg ymwybyddiaeth disgyblion o grefyddau'r byd, eglurodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau y disgwylir i faes llafur yr ysgolion cynradd gynnwys o leiaf un grefydd arall heblaw Cristnogaeth, a bod y fframwaith enghreifftiol newydd yn gofyn am gymharu crefyddau.

O safbwynt cwestiwn allweddol 3 sy'n cyfeirio at ddatblygiad ysbrydol a moesol disgyblion, nodwyd bod yr ysgolion wedi perfformio'n dda hefyd.

Diolchwyd i'r swyddogion am baratoi'r adroddiadau gan eu bod yn help i GYSAG fonitro'r elfen hon.

(ii) Crynodeb o hunan arfarniad Ysgol y Clogau.

Atgoffwyd yr aelod o'r drefn i ysgolion gyflwyno Hunan Arfarniadau sef pe na fyddai ysgol yn cael ei harolygu yn y pwnc Addysg Grefyddol gofynnir i'r ysgol honno o fewn blwyddyn yr arolygiad i gyflwyno Hunan Arfarniad o'r pwnc Addysg Grefyddol ac o'r elfen yn ymwneud â datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. Nodwyd bod gan CYSAG gyfrifoldeb i fonitro safonau Addysg Grefyddol a theimlwyd bod y drefn yn llwyddiannus drwy dderbyn yr Hunan Arfarniadau fel ffordd o fonitro safonau'r ysgolion.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau**

## 10 CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

Cyflwynwyd

(i) Cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2010 yn Wrecsam;

(ii) Gwybodaeth y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ddydd Gwener 26 Tachwedd 2010, yng Nghaerffili

Adroddodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau iddi fod yr unig gynrychiolydd o Wynedd yng nghyfarfod diwethaf Cymdeithas CYSAGau Cymru, ac atgoffwyd yr aelodau nad oedd ganddi bleidlais yn y cyfarfodydd hynny.

Cyfeiriodd y swyddog at ohebiaeth oedd i law oddi wrth Mr Wyn Myles Meredith, cynrychiolydd ffyddlon a gweithgar ar CYSAG Gwynedd a Chymdeithas CYSAGau Cymru. Nododd bod yr ohebiaeth yn mynegi ei bryder nad oedd wedi bod yn bresennol nag wedi ymddiheuro o gyfarfod diwethaf y Gymdeithas ar 24 Mehefin 2010 oherwydd na dderbyniodd unrhyw bapurau ynglŷn â'r cyfarfod.

Cyfeiriwyd ymhellach at y ffaith nad oedd y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf CYSAGau Cymru chwaith, a'i bod yn bosibl nad oedd y papurau wedi ei gyrraedd yntau.

Mynegodd yr aelodau siom a phryder ynglŷn â'r gynrychiolaeth wan o Wynedd. Nodwyd bod CYSAG Gwynedd wedi enwebu cynrychiolwyr i gynrychioli bob carfan o'r aelodaeth, a'i bod yn bwysig bod cynrychiolaeth gref o Wynedd. Gofynnwyd i swyddogion ymchwilio i'r sefyllfa, ac i sicrhau bod manylion llawn cynrychiolwyr CYSAG Gwynedd gan Ysgrifenyddiaeth CYSAGau Gymru.

Ychwanegodd aelod y dylid anfon dirprwy os nad oedd cynrychiolydd swyddogol yn gallu bod yn bresennol, ynghyd â rhoi hawl i'r Ymgynghorydd Dyniaethau bleidleisio ar ran y cynrychiolwyr os nad oeddynt yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod o CYSAGau Cymru.

Yn deillio o gofnodion y cyfarfod tynnwyd sylw at argymhelliad y dylai CYSAGau dalu tanysgrifiad o £393 am 2010/11.

**PENDERFYNWYD**

(i) **Derbyn a nodi cynnwys cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2010 yn Wrecsam;**

(ii) **Nodi siom nad oedd cynrychiolydd o Wynedd, heblaw'r Ymgynghorydd Dyniaethau, wedi mynychu cyfarfod diweddar o Gymdeithas CYSAGau Cymru, a gofyn i'r Swyddog Addysg Gynorthwyol a Chlerc CYSAG ymchwilio i'r sefyllfa ac i sicrhau bod manylion llawn cynrychiolwyr CYSAG Gwynedd gan Ysgrifenyddiaeth CYSAGau Gymru;**

(iii) **Bod cynrychiolwyr ar CYSAGau Cymru yn gofyn i gynrychiolydd ddirprwyo iddynt yng nghyfarfodydd y Gymdeithas os nad oeddynt yn gallu bod yn bresennol;**

(iv) **Bod yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn cael pleidleisio ar ran CYSAG Gwynedd os nad oedd cynrychiolydd yn gallu bod yn bresennol;**

(v) **Cymeradwyo ail-ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru drwy dalu tanysgrifiad o £393 am y flwyddyn 2010/11**

## 11 GOHEBIAETH

(a) Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Mudiad Addysg Grefyddol Cymru.

Adroddodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) bod teyrngar i'r diweddar Dafydd Whittal gan y Parchedig Ddr Alwyn Roberts yn Adroddiad Blynyddol Mudiad Addysg Grefyddol Cymru a dyfynnodd yn helaeth o'r deyrnged haeddiannol.

Nododd y Cadeirydd bod y diweddar Dafydd Whittall yn ŵr arbennig iawn, bod ei gyfraniad yn fawr ym maes iaith, addysg a diwylliant Gwynedd a Chymru, a bod bwlch ar ei ôl.

**PENDERFYNWYD diolch i'r Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG am ddod â'r deyrnged i'r diweddar Dafydd Whittall i'w sylw.**

(b) Cyflwynwyd datganiad gan Esgob Bangor, y Gwir Parchedig Andrew John yn cyhoeddi apwyntiad y Parchedig Townsend fel Cyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Bangor.

Adroddodd y Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG ar gyfrifoldebau'r swydd ac eglurodd bod y Parchedig Townsend yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru ar CYSAG.

Eglurodd ei fod yn olynu'r Parchedig Ganon Tegid Roberts yn y swydd, ac fel cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru ar CYSAG.

Cyfeiriwyd at gyfraniad gwerthfawr Parchedig Ganon Tegid Roberts i waith CYSAG am flynyddoedd lawr.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Llongyfarch y Parchedig Townsend ar ei apwyntiad fel Cyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Bangor, a diolch iddo am wasanaethu ar CYSAG.**

**(ii) Bod Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG yn ysgrifennu at y Parchedig Ganon Tegid Roberts i ddiolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i waith CYSAG am flynyddoedd lawer, ac i'w longyfarch a dymuno'n dda iddo ar ei apwyntiad fel Canon Trigfannol yn y Gadeirlan ym Mangor.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am 3:35 pm**

**CADEIRYDD**